OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 3519 (Cy.311)

DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Nodi Ffynonellau Sŵn) (Cymru) 2007

Gwnaed - - - -	*13 Rhagfyr 2007*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*17 Rhagfyr 2007*
Yn dod i rym - -	*9 Ionawr 2008*

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**), mewn perthynas â mesurau sy'n ymwneud ag asesu, trafod a rheoli sŵn amgylcheddol.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan yr adran honno.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Nodi Ffynonellau Sŵn) (Cymru) 2007.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 9 Ionawr 2008.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2.—(1) Ystyr "map a adneuwyd" ("*deposited map*") yw map sydd wedi'i lofnodi ar ran Gweinidogion Cymru ac wedi'i adneuo yn eu swyddfeydd.

(2) ystyr "Rheoliadau 2006" ("*the 2006 Regulations*") yw Rheoliadau Swn Amgylcheddol (Cymru) 2006(**3**).

(3) Mae i eiriau a thermau a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac a ddefnyddir hefyd yn Rheoliadau 2006 yr un ystyr ag yn Rheoliadau 2006.

(**1**) Gweler O.S. 2004/706. Mae'r swyddogaethau sy'n arferadwy gan y Cynulliad Cenedlaethol o ganlyniad i'r dynodiad a wnaed gan yr offeryn hwn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru: gweler paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) O.S. 2006/2629 (Cy.225).